Clwb Ffermwyr Ieuanc Tal-y-bont a'r Cylch

Sefydlwyd Clwb Ffermwyr Ieuanc Tal-y-bont a'r Cylch mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar Hydref 14, 1953 yn y Neuadd Goffa. Y prif sylfaenydd oedd Mr D.J. Thomas neu Tomos y Troi i'w gydnabod, gŵr a fu'n weithgar tu hwnt fel arweinydd i'r Clwb am flynyddoedd. Deugain a phump o aelodau oedd bryd hynny a rheini'n dod o ardal gymharol fechan o gwmpas Tal-y-bont ei hun. Daeth y Clwb i ben am gyfnod yng nghanol y chwedegau a sefydlwyd clwb newydd yn Rhydypennau yn 1964 cyn dychwelyd i Dal-y-bont yn 1971.

Uchafbwynt gweithgaredd y Clwb bob blwyddyn, wrth gwrs, yw Rali flynyddol Sir Ceredigion. Yn ystod y blynyddoedd cynnar cafwyd llwyddiant ysgubol gyda'r Clwb yn cyrraedd y brig am y tro cyntaf yn 1955. Cyflawnwyd yr un gamp ddwy flynedd yn ddiweddarach yn 1957 ac yn 1962. Serch hynny fe berthyn i bob clwb gyfnod o lanw a thrai a bu ysbaid o rai blynyddoedd cyn i lwyddiant cyffelyb ddychwelyd i'r Clwb. Braf wedi cyfnod o dair blynedd ar hugain oedd dychwelyd i'r brig pan gipiwyd y Rali yn 1985. Enillwyd eto yn 1988 a'r tro diwethaf yn 1992. Mae'n siwr y daw

Tal-y-bont and District Young Farmers Club

The Tal-y-bont and District Young Farmers Club was established at a meeting held on 14th October, 1953 at the Memorial Hall. The main founder, Mr D.J. Thomas or Tomos y Troi to his acquaintances, was an extremely hardworking Club leader for years. At that time there were forty five members who came from a fairly small area around Tal-y-bont itself. The Club was suspended for a period during the mid sixties but was re-established at Rhydypennau in 1964 before returning to Tal-y-bont in 1971.

Of course, the highlight of Club activities every year is the Ceredigion Annual Rally. During the early years the Club had a sweeping success, winning for the first time in 1955. The same feat was achieved in two later years, 1957 and 1962. However, every club has a period of highs and lows and a few years passed before the Club had similar successes. After a period of twenty three years, it was wonderful when the Club won the Rally in 1985. It won again in 1988 and the last time in 1992. The Club is bound to be successful again sometime in the future!

Enillwyr y Rali (J.Ll. Jenkins)

Rally winners (J.Ll. Jenkins)

llwyddiant i ran y Clwb eto yn y dyfodol!

Heddiw, mae'r Clwb yn parhau i gyfarfod yn wythnosol ar nos Fawrth yn y Neuadd ac yn denu bron i hanner cant o aelodau, o ddalgylch dipyn ehangach nag a fu, rhwng y Rheidol a'r Ddyfi. Er bod pwyslais y mudiad wedi newid dros y blynyddoedd, o glwb addysgiadol gyda phwyslais ar hwyl i glwb mwy cymdeithasol gyda gweithgareddau amrywiol, mae'n parhau i gyfrannu'n helaeth i gymuned Tal-y-bont a'r cylch. Ar hyd y blynyddoedd mae'r Clwb wedi elwa o aelodau brwdfrydig ac arweinyddion a chyfeillion lu fu'n barod eu cymorth a'u cymwynas bob amser.

Dathlu 40 oed
Celebrating 40 years

Edrychwn ymlaen yn awr at ddathlu hanner can mlwyddiant sefydlu'r Clwb yn 2003!

Nowadays, the Club continues to meet in the Hall every Tuesday evening and attracts almost fifty members, from a wider catchment area, between the Rheidol and the Dyfi, than in the past. Although, over the years, the emphasis of the movement has changed from an educational club with emphasis on fun to a more social club with a variety of activities, it continues to make a big contribution to the community of Tal-y-bont and the surrounding area. Throughout the years the club has benefited from enthusiastic members, leaders and many friends who are always willing to support and assist.

We now look forward to 2003 when we celebrate the Club's half century!

Y Clwb 2000